PAM DEWIS TGAU

# Drama?

Bydd cymhwyster CBAC TGAU Drama yn eich cefnogi i:

- archwilio dramâu sydd wedi'u creu a'u perfformio gan bobl eraill a datblygu eu doniau drama eu hunain
- meithrin dealltwriaeth o amrywiaeth o dechnegau, ffurfiau, arddulliau, genres, a chyd-destunau
- adfyfyrio ar eich gwaith eich hunain, ei fireinio a'i werthuso
- archwilio amrywiaeth, hunaniaeth a diwylliant
- darganfod ac archwilio eich sgiliau perfformio a/neu ddylunio

## BETH FYDDAF YN EI ASTUDIO?

Bydd y cymhwyster TGAU Drama yn eich galluogi i archwilio ac ymateb i ysgogiadau, creu ac adfyfyrio ar eich gwaith eich hun, datblygu eich creadigrwydd eich hun a mynd i'r afael â llawer o wahanol arddulliau theatr.

Byddwch hefyd yn cael cyfle i feithrin eich dealltwriaeth o actio, cyfarwyddo, dylunio a theatr dechnegol.

## SUT BYDDAF YN CAEL FY ASESU?

### Uned – 1 Dyfeisio Theatr

Asesiad di-arholiad ymarferol
40% o'r cymhwyster: 96 marc

**Un** darn dyfeisiedig mewn ymateb i ddewis o ysgogiadau, wedi'i berfformio mewn grŵp o rhwng dau a phum actor a hyd at bedwar dylunydd.

### Uned 2 – Perfformiad o Destun

Asesiad di-arholiad ymarferol
30% o'r cymhwyster: 72 marc

Perfformio un darn o destun o'ch dewis. Asesir gan Arholwr Ymweld ac fe'i perfformir mewn grŵp o rhwng dau a phedwar actor a hyd at ddau ddylunydd.

### Uned 3 – Dehongli Theatr

Math o Asesiad: Arholiad digidol ar-sgrîn (2 awr)
30% o'r cymhwyster: 72 marc

Mae'r arholiad wedi'i rannu'n ddwy adran: Adran A ac Adran B. Bydd Adran A yn gofyn cwestiynau yn seiliedig ar destun gosod y byddwch wedi'i astudio mewn gwersi. Bydd Adran B yn gofyn cwestiynau yn seiliedig ar ddarn o gynhyrchiad theatr fyw o un o bedwar genre gosod, y byddwch yn gallu ei wylio yn yr arholiad. Y genres yw Theatr Gerdd, Naturiolaeth, Theatr mewn Addysg neu Theatr Gorfforol.

## PA SGILIAU FYDDAF YN EU DATBLYGU?

Archwilio: Cewch gyfle i archwilio, profi a dehongli llawer o wahanol arddulliau a genres theatr sy'n gysylltiedig â gwahanol ddiwylliannau yng Nghymru a'r byd. Byddwch yn gallu adeiladu ar y syniadau hyn i greu a datblygu eich theatr eich hun wrth ddyfeisio ac wrth weithio o sgript.

Ymateb ac adfyfyrio: Byddwch yn gallu traethu, gwerthuso a mireinio eich gwaith drwy adfyfyrio a chael adborth gan eraill, i greu cynnyrch gorffenedig cyffrous, llawn dychymyg a llwyddiannus. Byddwch hefyd yn gallu gwerthuso a dadansoddi gwaith eraill i lywio eich creadigrwydd eich hun.

Creu: yn Uned 1, byddwch yn dyfeisio'ch darn theatr gwreiddiol eich hun mewn ymateb i ysgogiad ac mewn arddull/genre o'ch dewis, o fewn grŵp o'ch cyfoedion. Yn Uned 2, byddwch yn gweithio o destun o'ch dewis, hefyd mewn arddull o'ch dewis.

## GYRFAOEDD MEWN DRAMA

Mae'r cymhwyster hwn yn darparu sylfaen ragorol ar gyfer astudio Drama ar lefel Safon Uwch. Bydd hefyd yn darparu cwrs astudio boddhaus a gwerthfawr i chi os ydych chi'n dewis peidio astudio ymhellach.

Yn bwysig, bydd astudio Drama yn datblygu llawer o sgiliau trosglwyddadwy gan gynnwys cyfathrebu, sgiliau cyflwyno, gweithio mewn tîm, arwain, ffocysu, mireinio, creadigrwydd a hunanhyder. Mae'r opsiynau gyrfa sy'n deillio o astudio Drama yn helaeth, ond dyma rai o'r opsiynau hynny:

Actor, Therapydd Drama, Recriwtio, Artist Colur Golygfaol, Swyddog Gweithredol Marchnata, Cyfarwyddwr Castio, Cynhyrchydd, Rheoli Digwyddiadau, Awdur Sgriptiau, Rheolwr Llwyfan, Athro ysgol gynradd, Darlithydd Prifysgol, Technegydd Colur a Phrostheteg, Athro, Rheolwr Celfyddydau Cymunedol, Dramodydd, Dylunydd Goleuadau, Dylunydd Gwisgoedd, Arweinydd Gweithdai, Technegydd Sain, Artist Cynorthwyol Stiwdio, Asiant Theatr, Gweinyddwr Celfyddydau, Rheolwr Theatr, Dramatwrg, Cyfarwyddwr Theatr/Teledu, Criw Darlledu, Ymchwilydd.

DYSGWCH FWY - SIARADWCH Â'CH ATHRO HEDDIW!

